# Ogof Aladin

(Parhad o'r dudalen flaen)

lenwi aml i fwlch yn fy ychydig wybodaeth o'm bro enedigol.

Tua diwedd y sesiwn, cofiodd Bob am fy nghwestiwn, ac yn eithaf cywilyddgar (canys fel y cofiwch, dim ond esgus i weld Bob Owen oedd y cwestiwn) rhoddais y darn papur iddo.

'Tyrd,' meddai Bob yn gwta, ac fe'i dilynais i fyny'r grisiau at un o'r llofftydd. Hyrddiodd y drws yn agored ac yno, fel math o Ogof Aladin, safai pentyrrau o focsys cardbord o bob siâp a maint ac arnynt y geiriau Rinse, Force, Lifebuoy ac yn y blaen, a phob un â chortyn beindar melyn amdano fel pe bai'n cadw cyfrinachau'r cynhwysion gwerthfawr yn ddiogel.

Camodd Bob i'r gornel bellaf, datododd y cortyn am un o'r bocsys ac yn ddi-oed fe ddiflannodd yn bendramwnwgl i berfedd y bocs. Taeraf hyd heddiw mai dim ond gwadnau ei esgidiau oedd i'w gweld, ond yn y man, gyda bloedd o fuddugoliaeth, neidiodd yn ddidrafferth ar ei draed gan gydio yn yr union lyfr oedd ei angen i ateb y cwestiwn.

Dyw gofod ddim yn caniatâu i mi sôn am letygarwch hael Nel a Bob Owen. Er cystled y te henffasiwn dderbyniais, y wir wledd oedd y danteithion blasus o wybodaeth a gefais.

Ie, profiad anhygoel oedd cael eistedd wrth draed un a haeddai gael ei gyfrif yn un o'n prif awdurdodau ym myd hanes lleol.

Heddiw, mi rown i'r byd yn grwn am gyfle i ail ymweld â Bob Owen – a chaniatau fy mod yn cael aros am wythnos – i fodio drwy ei lyfrau a'i lawysgrifau gwerthfawr ac i elwa unwaith eto o'i wybodaeth eang.

## AR WERTH

*Clock and Watchmakers in Wales*, Iorwerth C. Peate, 1945, £1.00.
*Y Storm Gyntaf*, Islwyn, gol. Meurig Walters, 1980. £3.00.
*Cerddi o'r Rwseg a Bannau Llên Pwyl*, T. Hudson Williams, 1953, £1 yr un.
*Storiau o'r Iseldireg*, gol. Elenid Jones, 1977. £2.
Gwasg Gregynog. *Effemera* 1940, 1952, 1955 etc. manion. Pris i'w drafod.

Ymholer â Mari Ellis (01970) 617171

* * *

Set o 6 *Cambrian Mistrels* Joseph Parry mewn cyflwr da.
*Transactions y Cymmrodorion* o PartII 1964 – Part 1 1971.
Cyflwr da iawn
Cysyllter â (01407) 762208

# Gofalu am eich Casgliadau

(Parhad o dudalen 11)

hun yn hyddysg ac yn abl yn y maes. Gall dwylo amhrofiadol wneud mwy o ddrwg nag o les. Yn gyffredinol, dylid trwsio cyn lleied ag y bo modd gan fod casglwyr fel arfer yn chwilio am eitemau sydd mor agos i'r cyflwr gwreiddiol ag sy'n bosib. Yn amlwg, nid yw rhwymiad diweddar wastad yn gweddu i lyfr hynafol. Weithiau, gall hyd yn oed y weithred o osod llyfr mewn rhwymiad cain ostwng gwerth y gyfrol ar y farchnad agored. Nid yw'r mwyafrif o'r defnyddiau a'r gludion sydd ar gael yn eich siop leol o ansawdd cadwraethol. Ni ddylid defnyddio tâp selo a gludion cyffredin am resymau amlwg. Byr yw eu hoes, ac maent yn melynu ac yn staenio papur gan greu mwy fyth o ddifrod a thrafferthion.

Fel rheol, y peth gorau i'w wneud os ydych am drwsio cyfrol, boed honno yn hen neu'n newydd, yw ceisio cyngor a chymorth arbenigwyr ym maes cadwraeth llyfrau.

**Hunan gymorth**

- Gosod llenni trwchus ar ffenestri gan sicrhau eu bod ar gau pan nad yw'r ystafell yn cael ei defnyddio. (Gall hwn fod yn bolisi amhoblogaidd)
- Gosod eich darluniau a'ch silffoedd llyfrau allan o gyrraedd goleuni uniongyrchol yr haul. Yn ogystal, ni ddylid eu gosod uwchben rheiddiaduron.
- Gwisgwch fenyg cotwm tra'n trin ac yn trafod eich llyfrau mwyaf gwerthfawr.
- Defnyddiwch olau gwynias (incandescent) nad yw'n cynnwys pelydrau uwchfioled neu fylbau watedd isel gyda swits pylu i osod lefel y golau mor isel ag sy'n gyfforddus i'ch llygaid.
- Sicrhau bod eich silffoedd a'ch cypyrddau pren wedi eu selio â farnais polyurethane.
- Gosod eich llyfrau mwyaf gwerthfawr mewn blychau pwrpasol neu mewn cypyrddau caeëdig.
- Aeth bwyd lledr (leather dressing) allan o ffasiwn. Ymddengys ei fod yn gwneud mwy o ddrwg nag o les, a'r cyngor diweddaraf yw i ni beidio â'i ddefnyddio ar ein cloriau.
- Peidiwch byth â defnyddio tâp selo i drwsio eich llyfrau (mae'n melynu ac yn staenio). Gellir archebu tâp o ansawdd cadwraethol ar gyfer mân drwsio.

Gobeithiaf y bydd yr erthygl hon yn eich gwneud yn fwy ymwybodol o'r ffactorau sy'n effeithio ar gyflwr eich casgliadau. Gobeithiaf hefyd y bydd y cynghorion a'r canllawiau cyffredinol yma yn gymorth i chi warchod ac estyn oes eich llyfrau yn sylweddol iawn. Felly, os yw hyn o unrhyw gysur, gall llyfr o'i gadw dan yr amgylchiadau cywir, oroesi ei ddarllenydd o sawl canrif!

## YN EISIAU

1. Unrhyw wybodaeth am W. J. Davies, yr awdur o Dalysarn.
2. *Llin sy'n Mygu* gan W. J. Davies.
3. Dramau o'i eiddo.
4. Gwybodaeth fywgraffyddol amdano ef a'i dad Frederick Davies.

Cysyllter ar 01678540 652 neu ar www.tanycastell@yahoo.com

## Bywyd a Gwaith Ann Griffiths

*Crewyd gwefan ddwyieithog gan Lyfrgell Prifysgol Caerdydd o dan olygiaeth Dr E. Wyn James.*

*Cyfeiriad Gwefan Ann Griffiths yw* **www.anngriffiths.caerdydd.ac.uk.**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar
**0292087 5394/4843**
neu
**02920 62 8754**
Ebosts: JamesEW@caerdydd.ac.uk.

## AR WERTH

1. Copi hen nodiant o *Dafydd ap Gwilym*, Cantata gan Harry Evans a Hawen
2. Copi sol-ffa o *Ymgom yr Adar*, Cantata y Plant gan Joseph Parry a Thomas Levi.
3. *Caneuon Traddodiadol y Cymry*, llyfr 2, c.m. gan W. S. Gwynn Williams yn cynnwys 650 o ganeuon.
4. *Cainc y Delyn*, 12 o Hen Alawon at wasanaeth datganwyr penillion yn y ddau nodiant gan P.H. Lewis a Telynor Mawddwy.
5. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, rhif 5, 1953 – Rhan III.
6. *Cylch Corawl o Ganeuon Gwerin* gan David de Lloyd.
7. *Welsh National Music and Dance*, W. S. Gwynn Williams.

Cysyllter â **01248 361233**.